Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Prif Swyddog Cyllid,

Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol Cymru
Comisiynwyr Heddlu a Throseddu Cymru
Awdurdodau Tân Cyfun Cymru
Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Dyddiad: 26 Chwefror 2025

Annwyl Gyfaill

# Ffurflenni Cyllideb Cyfrif Refeniw, 2025-26

Cyn hir byddwn yn anfon e-bost at ein swyddog cyswllt yn eich awdurdod, yn cynnwys dolen at daenlen ar gyfer y ffurflen uchod. Dylid dychwelyd y daenlen drwy e-bost at Lywodraeth Cymru erbyn **4 Ebrill 2025**.

Sylwch **nad oes rhaid i ni gael copi caled wedi'i lofnodi** o'r ffurflen bellach.

Mae'r wybodaeth hon yn cael ei chasglu dan adran 139A o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (Deddfwriaeth y DU) (fel y mewnosodwyd gan baragraff 68 o Atodlen 5 i'r Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (Deddfwriaeth y DU)).

## 1. Llenwi Ffurflenni - Gwybodaeth Bwysig

Dylai awdurdodau lynu at y diffiniadau o'r llinellau ar y ffurflenni, er mwyn i'r wybodaeth sy'n cael ei rhoi adlewyrchu amgylchiadau'r awdurdod yn gywir.

Edrychwch ar y rhybuddion dilysu rhyngweithiol ar hyd y ffurflenni, yn arbennig y rhybuddion ar y daenlen dilysu Cyfrif Refeniw, gan nodi'r rhesymau - dylai hynny leihau'r angen i ni gysylltu â chi.

Gallwch nodi sylwadau cyffredinol ac awgrymiadau ar y daflen sylwadau.

Mae'n eithriadol bwysig i'r holl awdurdodau lleol **lynu'n gaeth** at y terfyn amser gan fod y ffurflenni hyn yn darparu data hanfodol at nifer o ddibenion amrywiol. Gofynnir i'r awdurdodau ddarparu eu **hamcangyfrifon gorau o fewn y terfyn amser**. Gellir diwygio'r ffurflenni'n hwyrach.

## 2. Defnyddio'r wybodaeth

Bydd y ffigurau sy'n cael eu hadrodd ar y ffurflenni Cyfrif Refeniw yn cael eu cyhoeddi mewn Datganiad Ystadegol Cyntaf ym mis Mehefin. Bydd y data addysg hefyd yn sylfaen ar gyfer datganiad ystadegol blynyddol "Gwariant sydd wedi'i gyllidebu ar gyfer darpariaeth Anghenion Addysgol Arbennig" ac adroddiad blynyddol "Gwariant a gyllidebwyd gan awdurdodau lleol ar gyfer ysgolion".

Mae'r ffurflenni'n darparu data hanfodol ar gyfer nifer o wahanol ddibenion yn ymwneud â gweithgarwch ariannol llywodraeth leol.  Bydd yr wybodaeth yn cael ei defnyddio i gyfrifo cyfansymiau gwasanaethau ar gyfer Asesiadau ar Sail Dangosyddion.

Bydd hefyd yn cael ei defnyddio'n helaeth mewn ymatebion i Gwestiynau'r Cynulliad, wrth ymdrin â gohebiaeth weinidogol ac at ddibenion monitro mwy cyffredinol.

Bydd yr wybodaeth sy'n cael ei darparu ar y ffurflenni Cyfrif Refeniw yn cael ei rhoi i CIPFA, fel sylfaen ar gyfer y cyhoeddiad "Finance and General Statistics"; i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru; ac i adrannau eraill o'r llywodraeth, er enghraifft i gynhyrchu cyfrifon cenedlaethol; a cheisiadau eraill am wybodaeth gan awdurdodau lleol; eu cymdeithasau a'r cyhoedd yn gyffredinol.

### 3. Manylion cyswllt

Anfonwch gopi o'r daenlen wedi'i chwblhau erbyn 4 Ebrill 2025, ac unrhyw ymholiadau neu ohebiaeth arall, yn y lle cyntaf at: YCLLL.Trosglwyddo@llyw.cymru

**Ffôn**

Frank Kelly: 0300 025 5673

Jack Tennant: 0300 025 9221

**Post**

Ystadegau Cyllid Llywodraeth Leol

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Diolch ichi am eich cydweithrediad.

Yn gywir,

**Anthony Newby**
Ystadegau Cyllid Llywodraeth Leol / Local Government Finance Statistics,
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi / Knowledge and Analytical Services,
Llywodraeth Cymru / Welsh Government